# Dewis gofal i oedolion

Mae dewis gofal yn un o'r **penderfyniadau mwyaf anodd** y bydd yn rhaid ichi ei wneud.

Dyma rai **awgrymiadau** gan ein harolygwyr: **Awgrymiadau**

1. **Defnyddiwch ein gwefan** – darllenwch ein hadroddiadau. Gwiriwch i weld a yw'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda ni.
2. **Ewch i'w gweld** – ac ewch â rhestr o gwestiynau, neu gopi o'r adroddiad diweddaraf.
3. **Ewch i weld nifer o leoedd os gallwch chi** - ac ewch ar adegau gwahanol o'r dydd er mwyn gweld y gwahanol lefelau o weithgarwch.

## Beth i edrych amdano:


A ydych yn derbyn **croeso cyfeillgar**?

A oes awyrgylch **croesawgar**?




A ydych yn cael siarad â'r rheolwr neu wneud apwyntiad i siarad ag ef/hi?

A yw'r cartref yn **lân** ac oes yna **ddigon o olau**?




Ydy'r cartref wedi'i addurno mewn ffordd ddymunol?

A yw pobl yn mynd **tu allan**?



A oes unrhyw aroglau **annifyr**?

A yw staff yn parchu'r **hawl pobl i breifatrwydd** ac yn cnocio ar ddrysau ystafell?



A gewch weld **adroddiad diweddaraf AGC**?



A yw pobl i'w gweld yn **brysur** a **hapus**?


A yw staff yn siarad ac yn rhyngweithio â phobl?



A oes ganddynt **ddewis** o brydau bwyd?

A ydynt yn cael **dewis** ble maent yn eistedd a beth maent yn ei fwyta?

Gallwch chi weld **dewis** o ystafelloedd?



A welwch **ddigon o staff** i fodloni anghenion y bobl?

Beth yw eu cymwysterau?



Bydd gan wefan eich awdurdod lleol hefyd wybodaeth am wasanaethau gofal yn eich ardal chi.


www.arolygiaethgofal.cymru
arolygugofal
@arolygu_gofal
YouTube @ciw-agc
LinkedIn care-inspectorate-wales




Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

WG47441